Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol T. Llew Jones

Dyddiad yr arolygiad: 21/09/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Crynodeb

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth, ynghyd â chefnogaeth staff cydwybodol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac mae ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn annog disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu hyrwyddo mwynhad disgyblion at ddarllen yn ddiweddar gan gynnwys sefydlu llyfrgell newydd sydd wedi ysbrydoli brwdfrydedd disgyblion i ddarllen.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r perthnasoedd cadarn a chefnogol rhwng staff a disgyblion. Mae'n meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion emosiynol a dysgu disgyblion. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n dda, yn cefnogi ei gilydd ac yn wynebu heriau gyda hyder.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a diddorol sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion. Mae syniadau'r disgyblion am beth yr hoffent ei ddysgu yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gweithgareddau. Er enghraifft, maent wedi cynllunio gwaith ar Gawr Bica ac astudio dolffiniaid Cei Newydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am yr ardal leol, Cymru a'u cynefin, ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned. Mae gweithgareddau ymarferol ar draws y meysydd dysgu yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'r themâu yn dda ac yn cefnogi'r rhan fwyaf i wneud cynnydd cadarn ar draws llawer o fedrau.

Mae cyfleoedd achlysurol i ddatblygu annibyniaeth a medrau datrys problemau disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau datrys problemau yn yr ardaloedd dysgu awyr agored, tra bod y disgyblion hynaf yn cynnal ymholiad gwyddonol i darganfod y ffordd orau o lanhau dŵr afon. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth disgyblion yn ddigon cyson ar draws yr ysgol ac mae tueddiad i athrawon or-arwain y dysgu, ar adegau.

Yn ystod sesiynau dysgu, mae llawer o staff yn defnyddio holi pwrpasol ac yn cynnig adborth llafar effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion. Yn yr arferion cryfaf, mae staff yn ymateb i sylwadau disgyblion ac yn addasu'r profiadau dysgu'n fwriadus. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth staff i wella eu gwaith.

Mae gan staff berthnasoedd cadarnhaol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith.

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2026